# Mesur Tai (Cymru) 2011

**2011 mccc 5**

## RHAN 1

ATAL DROS DRO YR HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG

### PENNOD 7

AMRYWIOL

**33 Dehongli Rhan 1**

(1) Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae i ymadrodd a ddefnyddir yn y Rhan hon sy'n cyfateb i ymadrodd Saesneg yn Neddf Tai 1985 yr un ystyr yn y Rhan hon ag sydd i'r ymadrodd cyfatebol Saesneg yn y Ddeddf honno.

(2) At ddibenion y Rhan hon—

ystyr "awdurdod tai lleol" *("local housing authority")* yw awdurdod tai lleol yng Nghymru;

mae i "cyflwr o bwysau oherwydd prinder tai" *("housing pressure condition")* yr ystyr a roddir gan adran 1(2);

mae i "hawliau cysylltiedig" *("related rights")* yr ystyr a roddir i "hawliau sy'n gysylltiedig â'r hawl i brynu" (gweler adran 1(3));

ystyr "tai cymdeithasol" *("social housing")* yw unrhyw dai a ddarperir gan ddarparydd tai cymdeithasol.

(3) At ddibenion y Rhan hon, ystyr "tŷ annedd perthnasol", mewn perthynas â chais am gyfarwyddyd, neu gyfarwyddyd a ddyroddwyd, o dan y Rhan hon yw—

(a) tŷ annedd—

(i) y mae ei landlord yn ddarparydd tai cymdeithasol, a

(ii) y mae gan y tenant iddo yr hawl i brynu, neu hawl sy'n gysylltiedig â'r hawl i brynu, neu fe fyddai ganddo hawl o'r fath petai'n bodloni'r amodau sy'n arwain at hawl o'r fath, a

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(b) mae'n cynnwys tŷ annedd sy'n bodloni gofynion paragraff (a) ar ôl y dyddiad y gwneir y cais am gyfarwyddyd ar ei gyfer.

(4) At ddibenion y Rhan hon, ystyr "darparydd tai cymdeithasol" yw—

(a) awdurdod lleol, a

(b) person (heblaw awdurdod lleol)—

(i) sy'n darparu tai, neu

(ii) y mae ganddo swyddogaethau sy'n ymwneud â dyrannu tai,

ar gyfer pobl nad yw'r farchnad dai fasnachol yn diwallu eu hanghenion yn ddigon da;

ond mae awdurdod lleol neu'r cyfryw berson arall yn ddarparydd tai cymdeithasol dim ond i'r graddau y mae'n darparu tai, neu fod ganddo swyddogaethau sy'n ymwneud â dyrannu tai.

## 34 Gorchmynion canlyniadol etc

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn wneud y cyfryw ddarpariaeth ag a ystyrir yn briodol gan Weinidogion Cymru o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Rhan hon, neu er mwyn rhoi effaith lawn i'r ddarpariaeth honno.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn wneud y cyfryw ddarpariaeth y mae Gweinidogion Cymru yn barnu ei bod yn briodol ar gyfer cymhwyso neu ymestyn unrhyw ddarpariaeth a wnaed gan y Rhan hon (gydag addasiadau neu hebddynt) i unrhyw ddarpariaeth ynghylch neu sy'n berthynol i hawl sy'n gysylltiedig â'r hawl i brynu.

(3) Mae'r pwerau o dan is-adrannau (1) a (2) yn cynnwys gwneud darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddarpariaeth (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt)—

(a) mewn unrhyw Ddeddf Seneddol neu Fesur Cynulliad Cymru (gan gynnwys y Mesur hwn), a

(b) mewn is-ddeddfwriaeth.

(4) Yn yr adran hon mae i "is-ddeddfwriaeth" yr un ystyr ag sydd i "subordinate legislation" yn Neddf Dehongli 1978.